| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 13eg 2016 |
| **TEITL** | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-26 |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau am yr Ymchwiliad Cyhoeddus |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Penderfynu sut i symud ymlaen hefo sylwadau. |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Môn wedi paratoi Cynllun Datblygu ar y cyd o’r enw Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Bydd yn Cynllun hwn yn disodli’r Cynlluniau Datblygu presennol ac bydd yn weithredol hyd at 2026.

1.2 Paratowyd y Cynllun dros gyfnod o rai blynyddoedd gan ddilyn arweiniad a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru mewn amrywiol ddogfennau. Mae’r Gwasanaeth AHNE wedi cyfrannu at ddatblygu strategaeth y Cynllun ac wedi gwneud sylwadau ar wahanol rannau drafft.

## 2.0 Y CYNLLUN ADNAU

2.1 Yn unol â’r gofynion statudol mae’r Uned Polisi ar y Cyd wedi cynnal cyfnod ymgynghorol o 6 wythnos ar y Cynllun Drafft Adnau. Roedd y cyfnod yn dechrau ar Chwefror 16eg a dod i ben ar 31ain o Fawrth 2015.

2.2 Roedd adroddiad ar y mater yma wedi ei gyflwyno i’r Cydbwyllgor AHNE yn mis Mawrth 2015. Bryd hynny trafodwyd y mater a phenderfynnu gwneud nifer o sylwadau ar y Cynllun Adnau. Roedd y sylwadau yn ymwneud â nifer o faterion yn y penodau â ganlyn:

- Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog
- Byw’n Gynaliadwy
- Economi ac Adfywio
- Cyflenwad ag Ansawdd Tai
- Amgylchedd Naturiol ac Adeiliedig

2.3 Cafodd yr holl sylwadau a wnaed ar y Cynllun Adnau, yn cynnwys rhai’r Cydbwyllgor Ymgynghorol, eu hystried gan yr Uned Polisi ar y Cyd. Wrth ystyried yr holl wrthwynebiadau yn unigol roedd swyddogion yr Uned Polisi ar y Cyd yn argymell un o dair opsiwn:

- derbyn y sylw a newid rhan o’r Cynllun
- derbyn y sylw yn rhannol a newid rhan o’r Cynllun
- peidio â derbyn y newid a pheidio gwneud unrhyw newid i’r Cynllun.

2.4 Hefyd, yn dilyn ymlaen o hyn fe gyhoeddwyd rhestr o Newidiadau â Ffocws (sef newidiadau roedd yr Uned Bolisi yn ystyried eu gwneud o ganlyniad i’r uchod).

Cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori ar y Newidiadau a Ffocws yn Chwefror –Ebrill 2016.

## 3.0 SYLWADAU Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL

3.1 Mae'r Atodiad yn cynnwys y manylion am y sylwadau a wnaed gan y Cydbwyllgor ar wahanol rannau o'r Cynllun (cyfanswm o 13 sylw). Hefyd, mae'r Atodiad yn cynnwys sylwadau ag argymhellion swyddogion yr Uned Polisi ar y Cyd. Os yw aelodau yn dymuno fe ellir gweld beth oedd ymateb swyddogion i'r holl sylwadau eraill a dderbyniwyd ar y Cynllun Adnau ar safle we'r Ymchwiliad: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Archwiliad-Annibynnol.aspx

## 4.0 ARCHWILIAD ANNIBYNNOL

4.1 Y cam nesaf ym mhroses y Cynllun Datblygu Unedol yw cynnal Archwilad Annibynnol. Mae'r holl fanylion am yr Ymchwiliad, yn cynnwys y papurau cefndir, cofnodion cyfarfodydd, dogfennau ayb ar safle we'r Archwiliad.

4.2 Yn yr Archwiliad Annibynnol bydd 2 Arolygydd anibynnol yn ystyried yr holl wrthwynebiadau sy'n parhau i sefyll (h.y heb eu datrys yn sgil y Newidiadau â Ffocws). Byddent yn ymdrin gyda'r sylwadau trwy drefn ysgrifenedig neu wrandawiad – yn ddibynnol ar ddymuniad y rhai sydd wedi gwneud sylwadau.

4.3 Mae'r Rheolwr Gwasanaeth AHNE wedi mynychu cyfarfod cychwynnol hefo Arolygwyr yr Ymchwiliad oedd yn amlinellu'r drefn, nodi dyddiadau ag ateb cwestiynnau. Pwysleisiwyd bryd hynny fod rhaid i sylwadau mewn gwrandawiad ychwanegu at y wybodaeth wreiddiol ac nad oedd yn bosibl cyflwyno tystiolaeth newydd.

4.4 Yn achos Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE gellir felly penderfynnu gadael i'r Arolygwyr ystyried y sylwadau trwy'r drefn ysgrifenedig neu fynychu'r Archwiliad i roi tystiolaeth lafar mewn gwrandawiad. Os yn penderfynnu tystiolaeth mewn gwrandawiad rhaid nodi mai'r Cadeirydd fyddai yn gyfrifol am wneud hynny.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Penderfynnu ar adael i'r Arolygwyr ddelio hefo sylwadau'r Cydbwyllgor AHNE trwy'r drefn ysgrifenedig neu i'r Cadeirydd gyflwyno'r achos mewn gwrandawiad (yn Medi/ Hydref 2016).